

Tynnu lluniau o gamlas Llangollen



ANTURIAETHAU DIGIDOL SIR DDINBYCH

Lawrlwytho antur yfory

Mae'r gweithgaredd hwn yn ymwneud â defnyddio'ch camera neu gamera ffôn i gyfleu sut y mae diwydiant wedi trawsnewid y gornel hon o ogledd Cymru a sut, diolch i ymdrechion y peiriannydd enwog Thomas Telford, na ddigwyddodd y newid hwn ar draul tirlun hardd Cymru.

Cyn i chi ddechrau



Sut i gyrraedd yno

Mae'r antur hon yn digwydd ger Rhaeadr y Bedol ac ar gamlas ryfeddol Llangollen.

I gyrraedd y man gychwyn, cymerwch yr A542 o Langollen tuag at Rhuthun, ac ar ôl tua milltir a chwarter, trowch ar y B5103 gan ddilyn yr arwydd am Corwen, Llantysilio a Rhewl. Fe fyddwch yn dod i gyffordd gyda thri arwydd ffordd – Corwen (B5103), Rhuthun a Rhaeadr y Bedol (y ffordd y daethoch) a Llantysilio a Rhewl. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dal i fynd yn syth ymlaen, gan ddilyn yr arwyddion am Llantysilio a Rhewl. Ar ôl tua 200m fe ddowch at le parcio ar y chwith (mae arwydd brown am le picnic ac mae toiledau hefyd ar gael yma). Efallai y bydd arnoch chi hefyd eisiau cael golwg ar fap o'r ardal yn y maes parcio.

Yna ar droed, trowch i'r chwith allan o'r maes parcio, a chychwyn cerdded tuag at eglwys hyfryd Llantysilio. Cymerwch ofal yma gan nad oes unrhyw balmentydd ar y ffordd yma.

Cod Post:

LL20 8BT

Trafnidiaeth gyhoeddus

Am wybodaeth ar y dewisiadau o safbwynt trafndiaeth gyhoeddus, ffoniwch

Traveline Cymru ar 0871 200 2233 neu

Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 08457 48 49 50.

Gadewch i ni gychwyn

Wrth ichi gerdded ar hyd y ffordd, byddwch yn gweld Rhaeadr y Bedol yn y pellter. Adeiladwyd y rhaeadr yn 1806 gan Thomas Telford. Mae'r rhaeadr yn deillio o argae anferth ar ffurf pedol, uwchben dyfroedd cyflym ar afon Ddyfrdwy. Rydym yn aml yn meddwl am ddiwydiannu fel rhywbeth a all fod yn ddinistriol i'r amgylchedd naturiol, ond roedd Telford yn gweld pethau'n wahanol. Roedd yn ddyn a oedd mewn cytgorod â'r tirlun o'i gwmpas ac ni chredai bod cynnydd yn golygu dinistrio prydferthwch naturiol. Ac mae llawer o'r farn ei fod wedi gwella'r tirlun naturiol gyda Rhaeadr y Bedol.

Onid yw'n olygfa wych? Mae'n dangos sut y mae'r argae'n creu llyn melin o ddŵr yn cael ei ddal yn ôl, sydd wedyn yn cael ei dynnu oddiyno i lifddor ac wedyn i gamlas Llangollen. **(1)**

Cymerwch funud i ystyried pam fod arnoch chi eisiau tynnu llun o'r tirlun hwn. Meddyliwch am ansoddair neu ddau sy'n disgrifio'ch teimladau a cheisiwch dynnu llun sy'n cyfleu'r geiriau hyn.

Ceisiwch osgoi defnyddio'r zoom i gau am eich gwrthrych oherwydd anaml y mae lensys zoom digidol da ar gamerau ffonau.

Bydd angen ichi droi oddi ar y ffordd pan gyrhaeddwch eglwys Llantysilio. Mae'r eglwys ar y chwith ichi – ewch i lawr y llwybr bach, ac yna drwy'r giât fach i'r chwith o brif fynedfa'r eglwys (peidiwch â mynd i mewn i fynwent yr eglwys). Yna dilynwch y llwybr i lawr at Afon Dyfrdwy.



Man cychwyn y gweithgaredd

Cychwynwch ar y gweithgaredd hwn wrth ichi droi allan o'r maes parcio; byddwch yn cychwyn cael golygfeydd ar y chwith ichi wrth ichi gerdded ar hyd y ffordd tuag at yr eglwys. Cymerwch ofal, gan nad oes unrhyw balmentydd ar y rhan hon o'r ffordd, ac fe fydd angen ichi fod yn ofalus wrth dynnu unrhyw luniau o'r fan hon.

Pa mor hir y bydd y gweithgaredd hwn yn ei gymryd?

Bydd y daith hon yn cymryd tua 40-50 munud (er y bydd angen ichi feddwl am yr amser i gerdded yn ôl hefyd), ond gallwch gymryd cymaint o amser ag yr hoffech chi er mwyn sicrhau eich bod yn cael cymaint o luniau ag y bydd arnoch eu heisiau.



Beth fydd arnoch ei angen

Camera ffôn neu gamera wedi ei wefru'n llawn.

Esgidiau cyfforddus ar gyfer cerdded.

Gair o gyngor:

Os yw'n bosibl, ceisiwch drefnu dod yma yn ystod yr 'Awr Hud', sef y cyfnod hwnnw sy'n union ar ôl toriad gwawr neu gyn y machlud bryd y gall golau meddal, euraid, fod yn llenwi'r tirlun.

Sicrhewch fod eich lens yn lân. Nid oes caead ar lens eich ffôn symudol, sy'n golygu ei bod yn agored i olion bysedd seimllyd, a all effeithio'n ddrwg ar finiogrwydd a chyferbyniad eich lluniau. Sychwch y camera'n ofalus â'r darn meddalaf a glanaf o frethyn sydd wrth law.

Gall rhai o'r llwybrau hyn fod yn hynod o fwdlyd, felly cymerwch ofal a gwisgwch esgidiau addas. Gall rhannau o'r daith hon fod yn anaddas ar gyfer bygis neu gadeiriau olwyn.

Mae llawer o 'reolau' mewn ffotograffiaeth i'ch helpu chi gael y llun gorau – ond os nad ydych ond am ddefnyddio un, yna defnyddiwch y Rheol Fesul Traean.

Techneg syml ond effeithiol yw hon i'ch helpu chi gyfansoddi gwell lluniau. Dychmygwch rannu'ch sgrin yn grid o naw sgwâr (3X3), fel grid chwarae croesau. Gosodwch linellau cryf yn eich tirlun ar hyd y llinellau grid hyn, ac elfennau o ddi-ddordeb lle mae'r llinellau grid yn croesi. (2)



Dilynwch y llwybr ar lan yr afon dros bont fach ger adeilad y llifddor (ar y chwith ichi) a chyrraedd cychwyn Camlas Llangollen, a dechrau llwybr a fydd yn mynd â chi yn y diwedd at safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte (sydd tua 6 milltir i ffwrdd).

Byddwch yn gweld bod y gamlas yn cychwyn yn gul iawn, ac ni fyddai cychod masnachol yn gwneud llawer o ddefnydd o'r rhan hon ohoni. Cafodd yr adran hon ei chynllunio fel rhedfa ddŵr ac mae'n rhedeg ar hyd teras gwastad a gerfiwyd allan o wyneb y graig gan ddyinion Telford, yn uchel uwchben dyfroedd Afon Dyfrdwy ar y dde. Mae'n edrych fel petai wedi bod yn filoedd o flynyddoedd.

Mae'r rhan yma o'r gamlas yn wych ar gyfer dal adlewyrchiadau yn y dŵr – cadwch lygad am bontydd, a gwahanol siapiau a lliwiau coed.

Un o'r llawer o nodweddion anhygoel y gamlas yw nad oes yr un loc yn difetha'r olygfa yn unlle ar y gamlas sy'n 11 milltir o hyd. Roedd Telford a'i dîm wedi cynllunio'i holl lwybr, gan gymryd mesuriadau a gwneud arolygon lefelu ar hyd y ffordd, er mwyn sicrhau'r graddiannau lleiaf i gadw'r dŵr i lifo.

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr tynnu heibio i westy'r Chainbridge (yr adeilad mawr ar y dde ichi), lle gallwch alw i mewn am ddiod neu damaid i'w fwyta, cyn cerdded ymlaen i ardal o'r enw Glanfa Pentrefelin, lle mae'r tirlun yn agor allan. Nid oes arwydd yn dangos pan fyddwch yn cyrraedd Glanfa Pentrefelin, ond byddwch wedi cyrraedd y lle iawn pan fydd newydd fynd heibio i'r amgueddfa foduron (mae tua 10 munud o waith cerdded o westy'r Chainbridge). Os ydych yn ymweld yn ystod tymor pan nad yw'r coed wedi deilio'n llawn, edrychwch i'ch chwith ac efallai y byddwch chi'n gallu gweld cip o'r arglawdd yn y pellter, lle'r oedd tramffordd weithiau'n dod i lawr o'r chwareli yn y brynau. Un tîmod da i chwilio amdano yw'r giât goch yn y wal gerrig ar ochr arall y gamlas. Yn anffodus, mae'r coed yn cuddio'r golygfeydd yn yr haf!

Adeiladwyd y dramffordd yn 1852 a byddai'n dod â llechi i'r sied i'w torri a'u gorffen, adeilad sydd heddiw'n gartref i'r amgueddfa foduron.



Mynd yn ôl i'r man cychwyn

Unwaith y byddwch wedi cyrraedd Glanfa Pentrefelin, bydd angen ichi droi a chychwyn yn ôl at y car y ffordd y daethoch.



Beth oeddech chi'n ei feddwl?

Dywedwch wrthym beth oeddech chi'n ei feddwl o'r gweithgaredd hwn, a rhannwch eich lluniau ar dudalen Darganfod Sir Ddinbych ar Facebook.

Roedd y llechi gorffenedig wedyn yn cael eu llwytho i gychod, cyn cychwyn y daith hir i Lundain. Er nad oedd y llechi o ardal Llangollen yn addas ar gyfer toi – roedd yn tueddu i droi'n ôl i fwd pan oedd yn wlyb! – roedd bri mawr arnynt ddibenion gwaith o dan do gan gynnwys pethau mor amrywiol â byrddau marwdy a byrddau biliard (felly cofiwch Langollen y tro nesaf yr ydych yn chwarae gêm o biliards yn eich tafarn leol).

Mae Pentrefelin yn lle da i gael lluniau ongl lydan, yn enwedig os oes gosodiad panorama ar eich ffôn.

Mae'n bwysig meddwl ynhygylch lle mae'r gorwel am ymddangos yn eich lluniau. Gall lluniau ymddangos yn ddi-fflach os mai'r cyfan a wna'r gorwel yw hollti'r llun yn ddau, felly arbrowfch ychydig. Os oes llawer o fanylion blaendir fel wal neu blanhigion, gosodwch y gorwel yn uchel i fyny tuag at frig y sgrin.

Ond os oes awyr dramatig yr hoffech ei gynnwys, neu fôr mawr o las y credwch y bydd yn gwella'r llun, yna gosodwch y gorwel yn is i lawr ar eich sgrin.

Mae mwy o luniau tirlun gwych i'w tynnu ar hyd y rhan drawiadol hon o'r gamlas, gyda chreigiau, coedydd a dyfroedd cyflym Afon Dyfrdwy.

.....

Peidiwch anghofio am

Gan eich bod yn yr ardal, mae llawer o fannau eraill arbennig y gallech ymweld â nhw ...

Trên stem Llangollen

Un ffactor yn unig oedd y gamlas yn y datblygiadau a drodd Llangollen yn ganolfan drafnidiaeth mor bwysig ym Mhrydain oes Victoria.

Cyrhaeddodd y rheilffordd y dref am y tro cyntaf yn 1848, a'i throï'n gyrchfan boblogaidd i filoedd o bobl yn teithio yno am y diwrnod i fwynhau'r awyr iach a'r golygfeydd anhygoel.

Caeodd y rheilffordd a'r orsaf yn 1965 a chafodd ei gadael i adfeilio hyd nes i wirfodolwyr eu hailagor yn yr 1970au fel gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr. Mae'r orsaf bellach wedi cael eu hadfer i'w hen ogoniant, gyda'i hystafell de ei hun ac amserlen reolaidd o dripiâu hen drenau stêm.

Mae'r orsaf ar yr ochr draw i Afon Dyfrdwy o'r brif Stryd Fawr yn Llangollen.

Yr Orsaf, Ffordd yr Abaty, Llangollen, Sir Ddinbych LL20 8SN

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.llangollen-railway.co.uk neu ffoniwch 01978 860979

Taith ar gwch sy'n cael ei dynnu gan geffyl

Mae taith ar gwch sy'n cael ei dynnu gan geffyl yn ffordd wych o werthfawrogi'r hyn sydd wedi cael ei ddisgrifio fel un o'r rhannau hyfrytaf o gamlas yn y byd.

Mae dewis o 'fordeithiau' sy'n cychwyn o Lanfa Llangollen, gyda'r daith ddwyawr yn mynd â chi i fyny at Rhaeadr y Bedol ac yn ôl.

Mae'n gyfle i gymryd rhan mewn darn gwirioneddol o hanes, gan fod y teithiau pleser hyn wedi bod yn rhedeg ers ymhell dros 100 mlynedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.horsedrawnboats.co.uk neu ffoniwch 01978 860702.

Plas Newydd

Am bron i 50 mlynedd, y bwthyn du a gwyn unigryw hwn oedd cartref Sarah Ponsonby a'r Arglwyddes Eleanor Butler, sy'n cael eu hadnabod fel Merched Llangollen.

Treuliodd y ddwy eu 'hymddeoliad melys a hyfryd' ym Mhlas Newydd, yn darllen, ysgrifennu a phaentio. Fe ddaethant yn enwog yn eu dydd, gyda beirdd rhamantaidd fel Lord Byron a Wordsworth, yn ogystal â Dug Wellington, ymysg eu hymwelwyr.

Perchnogion diweddarach a roddodd y tu allan Gothig i'r adeilad, ond cafodd yr holl gerfiadau derw sy'n llenwi'r tu mewn ei gasglu gan y Merched. Mae'n werth mynd am dro i'r gerddi hefyd, ac mae caffi a lawnt fowlio yno'n ogystal.

Plas Newydd, Stryd y Rhiw, Llangollen, Sir Ddinbych LL20 8AW.

Am ymholiadau cyffredinol, archebu neu achlysuron arbennig, ffoniwch: 01978 862834 (Ebrill – Medi), neu 01824 708274 (Hydref – Mawrth).

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/treftadaeth